

Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

Pwynt Craffu Technegol 1: Rydym yn derbyn y pwynt ac yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am sylwi ar y gwall teipograffyddol hwn. Dylai'r cyfeiriad yn erthygl 29(3) fod yn gyfeiriad at baragraff (2). Byddwn yn ceisio ei newid drwy slip cywiro.

Pwynt Craffu Technegol 2: Rydym yn derbyn y pwynt ac yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am sylwi ar y gwall teipograffyddol hwn. Byddwn yn ceisio ei newid drwy slip cywiro.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: Yn unol ag adrannau 2(2) a 4(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru ('y Panel') sy'n llunio Gorchymynion Cyflogau Amaethyddol. Gall gwahaniaethau ddigwydd rhwng mabwysiadu cynnig a drafftio'r cynnig hwnnw ar ei ffurf ddeddfwriaethol derfynol. Roedd nod y panel i egluro effaith erthygl 14 yn gyson, ond mireiniwyd ffurf y geiriau a ddefnyddiwyd ganddo i geisio cyflawni'r nod hwnnw yn ystod y broses ddrafftio, felly ceir gwahaniaeth rhwng geiriad y Memorandwm Esboniadol a geiriad y Gorchymyn.